

Ymson Nia ar y trê

Nefi, mae'n llawn yma. Pobl o bob lliw a llun yn llenwi pob sedd. Lle yn fancw. Bustachu i stwffio fy mag o dan y sedd, tynnu fy nghôt ac eistedd wrth ddyn ifanc – Indiad dw i'n meddwl. Gyferbyn â mi mae 'na ddyn anferth fel Bwda ond mai ychydig o wallt sydd ganddo a hwnnw yn britho. Gobeithio y bydd un o'r ddau yma'n mynd i lawr yng Nghasnewydd i mi gael mwy o le. Fedra i ddim diodde hyn bob cam i Fangor. Mae traed y Bwda reit wrth fy rhai i. Does gan y creadur ddim help am ei faint ond mae o'n eistedd ar y sedd agosa at yr ale ac ar y sedd wag rhyngddo fo a'r ffenest mae ei fag plastig.

Trio darllen. Anodd canolbwyntio. Y ddynes yr ochr arall i'r ale yn parhau bymtheg y dwsin gyda'i ffrind sydd â'i phen ar y bwrdd yn trio cysgu. Maen nhw wedi bod mewn rhyw gynhadledd (nyrsus dw i'n meddwl) ac wedi gadael cyn y ddarlith olaf er mwyn dal y trê. Tria ganolbwyntio ar dy lyfr, Nia. Ffôn y ddynes gyferbyn yn canu ac mae hi'n siarad Cymraeg! Gyda'i merch dw i'n meddwl – Elen – a honno, 8 oed - yn 'cyfieithu i Saesneg i'w thad', meddai'r ddynes wrth ei chydymaith. Diddorol. Mae'r ddynes yn fy mhlesio!

Dydy'r mammoth na'r dyn wrth fy ochr i byth wedi gadael y trê, ond mi fyddwn ni yn Y Fenni yn y munud. Na, dim osgo symud ar yr un o'r ddau eto. Y trê yn orlawn a llawer yn sefyll ond dydy'r mammoth ddim yn symud ei gorff na'i fag plastig. Y bwbach! Ond ma'na ddynes yn pwnio ei ysgwydd ac yn gofyn iddo symud! Yntau'n llithro a stwffio i'r sedd nesaf at y ffenest! Golwg digon blin ac anghyfforddus arno!

Mae'r siaradwraig dros y ffordd wedi cael cynulleidfa - cymanfa o Saesnes fodrwyog, freichledog, glustdlysog yn llenwi ei sedd ac yn siarad gyda thaten boeth yn ei cheg. Smalio cysgu i mi gael canolbwyntio ar eu sgwrs! Y Saesnes wedi teithio bob cam o Bournemouth ac ar ei ffordd i'r Amwythig at ei merch. Dod i weld ei hwyres yn actio 'dyn y llety' yn nrama Nadolig yr ysgol. Dydy'r wyres ddim yn hoffi gorfod gwisgo i fyny fel dyn. Merch y ddynes barabllus yn asyn yn nrama'r capel y llynedd a doedd hithau ddim yn hoffi hynny chwaith! Capel Yr Wyddgrug tybed? Mae hi newydd ddweud mai dyna ble mae hi'n byw a'i bod yn gweithio yn Ysbyty Glan Clwyd. Nel ydy ei henw – ar ôl chwaer ei thad meddai hi. Diddorol!

Sioc! Y mynydd gyferbyn yn siarad! Ar ei ffôn. Gyda'i wraig, mae'n rhaid, achos mae'n dweud, 'See you when I get home, LOVE'. Ella ei fod o'n ddigon annwyl, wedi'r cyfan.

Ffôn Nel yn canu eto. Saesneg y tro hwn. Heledd sydd yr ochr arall i'r ffôn. Eisiau pres. Dim angen i mi ddyfalu. Dweud y cyfan wrth y ddynes fodrwyog! Ei merch ydy Heledd. Ugain oed. Ar ei hail flwyddyn yn y brifysgol yn Lerpwl yn astudio Ffrangeg a llawer o bartion ymlaen cyn y Dolig! Bydd yn trefnu i'r banc drosglwyddo arian iddi heno. Mae ei mab, Siôn, yn 28 oed ac yn gweithio mewn siop yn Wrecsam. Y ddynes fodrwyog wedi cael llawer o golledion yn ei siopau yn Llundain yn ystod terfysgoedd yr haf ... Haleliwia!

Mae'r dyn tocynnau'n dod heibio. Nel yn dechrau cynnal sgwrs ag o ac mae'n dweud y cyfan! Mae ganddo ferch 42 oed, gwraig 43 oed a mab 4 oed. Fy mhen i'n troi! Amhosibl! Ail wraig siŵr iawn! Pethau'n mynd yn fwy cymhleth! Mae'n daid ac yn hen daid! Trio gneud y syms! Posibl o drwch blewyn! Nel a'r dyn tocynnau'n tynnu ar ei gilydd. Fflyrtio! Fo'n deud y gallai ei thynnu hi oddi ar y silff. Wedi cael ei thynnu oddi ar y silff ddwywaith medda hi. Diddorol. Dyna egluro pam mae hi'n siarad Saesneg gyda'r ferch hynaf a Chymraeg gyda'r fenga a pham mae cymaint o wahaniaeth oed rhyngddyn nhw! Deall rŵan!

Rydan ni yng Nghaer ac mae'r merched a'r dyn tew yn mynd. Symud i'r sedd yr ochr arall i'r bwrdd. *Dolly mixtures* o bobl mewn bag yn creu llun amryliw am gyfnod ac yna'n chwalu. Wela i byth mohonyn nhw eto!

'Gweld eich bod yn darllen 'Y storiwr' gan Jon Gower'. Dw i'n neidio o 'nghroen! Mae'r dyn o India yn siarad Cymraeg! Diddorol ...